# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Hwyr Ysgol Mornant**

**Ysgol Gymraeg Mornant**
**Picton**
**Penyffordd**
**Treffynnon**
**CH8 9JQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**9 Mai 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Clwb Hwyr Mornant i ddarparu gofal i uchafswm o 24 o blant. Lleolir y clwb yn Ysgol Gymraeg Mornant, sef ysgol fach wledig cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio'r neuadd, y gegin a'r ardal fwyta, yr ardaloedd storio a'r toiledau. Gall y plant ddefnyddio iard chwarae'r ysgol a'r ardal laswellt ar gyfer chwarae corfforol a gweithgareddau strwythuredig. Mae'r clwb yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 15.15 tan 18.00, yn ystod tymor yr ysgol. Michelle Brooks-Jones yw'r person cofrestredig a'r person â gofal.
Mae'r gwasanaeth yn darparu cynnig gweithredol yr iaith Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn cael gofal cynnes a sylwgar yn y gwasanaeth bach a gofalgar hwn. Caiff eu llesiant a'u hunanhyder eu cyfoethogi, gyda'r plant yn dysgu am bwysigrwydd bod yn gwrtais. Mae ymarferwyr tyner a chymwys yn darparu amgylchedd chwarae amrywiol ac yn arwain y plant mewn ffordd sensitif, gan ddiwallu eu holl hanghenion. Mae'r amgylchedd yn ysgogol ac yn eang. Mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch y plant, yn cefnogi'r ymarferwyr, ac yn darparu'r hyfforddiant a'r adnoddau angenrheidiol. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r ysgol yn werthfawr.

**2. Gwelliannau**

Ers yr arolygiad blaenorol:

- prynwyd rhagor o gemau i gadw gweithgareddau yn ffres a diddorol;
- mae'r gwasanaeth wedi cael cyllid ar gyfer gweithdai yn cynnwys gwyddoniaeth, adeiladu cuddfan, parth natur ac eraill;
- mae gwirfoddolwyr yn helpu'r person â chyfrifoldeb.

Ers yr arolygiad hwn cawsom wybod y canlynol yn ysgrifenedig:

- mae dril tân wedi'i gwblhau a'i gofnodi;
- mae dogfennau wedi'u casglu mewn ffeiliau i ddangos tystiolaeth bod gwirfoddolwyr yn addas i ofalu am blant;
- derbyniwyd Adolygiad cynhwysfawr o Ansawdd y Gofal.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Dim

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan y plant lais ac maent yn gwneud dewisiadau mewn ffordd hyderus. Gallant gyfathrebu'n effeithiol iawn ac mae'r plant hŷn yn mynegi barn mewn ffordd ystyrlon ac aeddfed. Maent yn dysgu gwerthoedd parchu eraill a chwrteisi yn llwyddiannus, wrth iddynt ymwneud â'r ymarferwyr a'r plant eraill. Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar ac yn mwynhau gweithgareddau yn y gwasanaeth. Mae'r plant yn dysgu, yn datblygu ac yn dod yn annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gwrandewir ar y plant a chaiff eu dewisiadau eu parchu.

Roedd pob plentyn yn siarad ac yn cyfathrebu eu hanghenion a'u dewisiadau yn hyderus, a diwallwyd y rhain yn brydlon, er enghraifft, pan oeddent yn gofyn am fwy o ddiod. Roeddent yn mynegi eu hunain yn dda ac roedd ganddynt sgiliau ieithyddol da, ac roedd y plant hŷn yn dangos hyder ac aeddfedrwydd. Gwnaethant ddewisiadau a phenderfyniadau priodol am eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau oedd ganddynt. Cawsant ddewis o weithgareddau a gwelwyd eu bod yn helpu eu hunain i focsys o flociau adeiladu. Gwnaeth y plant a oedd angen gwasanaeth yn Gymraeg dderbyn hynny, am fod yr ymarferwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl drwy gydol y sesiwn.

Mae gan y plant lais ac maent yn gwneud dewisiadau mewn ffordd hyderus.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd y plant wedi setlo'n dda ac yn hapus i fynd at yr ymarferwyr i chwarae â nhw. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn a oedd yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt ac roeddent yn barod i dacluso cyn mynd adref. Roedd gan y plant gydberthynas agos â'r ymarferwyr a oedd yn eu hadnabod yn dda ac yn magu eu hunan-barch. Roeddent yn gwneud ffrindiau ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus ac roedd rhai yn cofleidio pan oeddent yn mynd adref.

Mae'r plant yn ffynnu gan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr.

Gwelwyd y plant yn rhyngweithio ac yn cydweithredu'n dda â'i gilydd a'r oedolion. Roeddent yn chwarae ochr yn ochr a gyda'i gilydd ar adegau gwahanol ac yn ymddiheuro heb i neb ofyn iddynt wneud hynny os oeddent yn meddwl eu bod wedi gwneud rhywun yn drist. Roeddent yn gwrtais, er enghraifft yn ystod adeg byrbryd, ac yn dweud os gwelwch yn dda a diolch.

Mae'r plant yn dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr ac yn parchu eraill yn llwyddiannus.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth.

Roedd y plant yn ymroi'n llwyr ac yn frwdfrydig yn eu gweithgareddau chwarae a hamdden, megis chwarae 'connect four' a gemau bwrdd. Gwelsom y plant yn cynnal diddordeb mewn tasg wrth iddynt ganolbwyntio am gyfnod hir tra'n tynnu llun ac roedd eraill yn adeiladu modelau diddorol o flociau. Roeddent yn trafod maint a siâp eu hadeilad â'i gilydd.

Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar ac yn mwynhau amrywiaeth dda o brofiadau.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn dysgu sgiliau i ddod yn annibynnol.

Roedd y plant yn datblygu sgiliau i hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol drwy chwarae, yn cynnwys tynnu llun a negodi rheolau ar gyfer gêm. Roedd y plant yn gallu cyflawni pethau eu hunain gan eu bod yn mynd i'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Gwnaethant gasglu eu cotiau a'u bagiau, a chwarae gemau heb fawr o gymorth.

Roedd y plant yn dysgu nifer o sgiliau drwy chwarae ac yn dod yn annibynnol yn llwyddiannus.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn awyrgylch gofalgar. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n gyson, yn fodelau rôl da ac yn defnyddio strategaethau cadarnhaol. Mae'r ymarferwyr proffesiynol a galluog yn hyrwyddo dysgu'r plant drwy chwarae, yn darparu gweithgareddau cymdeithasol ac yn diwallu anghenion unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae’r ymarferwyr yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd yr ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Roedd trafod â'r person â chyfrifoldeb yn dangos eu bod yn gwybod beth oedd y broses i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon diogelu ac roedd manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau perthnasol ar gael. Roedd gan yr ymarferwyr gymwysterau Cymorth Cyntaf cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau ar gael i rieni eu llofnodi pe byddai eu hangen. Cynigiwyd byrbryd o dost gyda dewis amrywiol o bethau i'w roi arno gyda dŵr i'w yfed. Dywedodd y plant wrthym eu bod weithiau'n cael cacen os oedd hi'n ben-blwydd ar rywun. Cafodd y bwyd ei baratoi gan y staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd ac roedd y byrddau'n cael eu golchi ac roedd pob ardal yn lân. Roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal ond nid oeddent yn cael eu cofnodi, ac mae trafodaethau'n dangos bod yr ymarferwyr yn gwybod sut i symud y plant o'r adeilad yn ddiogel. Rydym wedi derbyn gwybodaeth ysgrifenedig bod dril tân wedi'i gynnal a'i gofnodi yr wythnos yn dilyn yr arolygiad. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod ardal chwarae awyr agored yn cael ei gynnig os oedd y tywydd yn fwyn, ond yn aml nad oes digon o amser ar ôl byrbryd gan fod y rhan fwyaf o'r plant yn mynd adref yn fuan ar ôl 4.30pm. Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd y plant yn derbyn gofal o 4.15pm ar ôl cymryd rhan mewn gweithdy drama a drefnwyd gan yr ysgol.

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn iach yn effeithiol ac mae eu diogelwch yn flaenoriaeth.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio'n llwyddiannus gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol.

Roedd yr ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn dda drwy ddathlu ymddygiad da. Roeddent yn dangos parch tuag at farn y plant gan reoli ymddygiad yn ôl y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn y polisi. Roedd yr ymarferwyr yn goruchwylio'r plant ac yn rhoi digon iddynt ei wneud. Roedd yr ymarferwyr yn chwarae gyda'r plant ac yn ymdrin ag unrhyw faterion cyn iddynt ddwysáu. Gwnaethant ganmol y plant yn aml, er enghraifft am dynnu llun ac am adeiladu tŷ.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn dda, gan helpu'r plant i fod yn gwrtais, i gydweithredu a dangos parch.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r ymarferwyr gofalgar a galluog yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant, gan ddarparu amrywiaeth o brofiadau.

Darparai'r ymarferwyr awyrgylch gofalgar a oedd yn meithrin y plant, ynghyd â sicrhau gofal ymatebol am eu bod yn gwybod manylion am y plant, a rannwyd gan y rhieni. Roeddent yn ymwybodol o alergeddau ac yn darparu ar eu cyfer. Hyrwyddodd ymarferwyr ddatblygiad pob plentyn, gan gynllunio a darparu gweithgareddau arbennig. Gwelwyd posteri ar gyfer nosweithiau arbennig fel noson pizza, noson ffilmiau, disgo a gweithgareddau Nadolig a chrefftau a phartïon. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn eu mwynhau. Roedd y plant yn cael y cyfle i ymarfer siarad Cymraeg mewn awyrgylch hamddenol ac addas ar gyfer plant. Roedd yr ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, gan fod rhai ohonynt yn gweithio yn yr ysgol hefyd, a oedd yn golygu eu bod yn sgwrsio'n bwrpasol am ddigwyddiadau o ddiddordeb iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo dysgu'r plant yn llwyddiannus ac yn diwallu anghenion unigol.

# 3. Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel, ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn addas iawn, am ei fod yn canolbwyntio ar y plentyn, ac mae'n un amrywiol gan gynnig profiadau uniongyrchol i'r plant. Yn yr awyr agored, mae iard gaeedig ac ardal laswellt lle gall y plant chwarae. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn dda.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Ni chafwyd mynediad diawdurdod am fod y fynedfa dan glo gyda chloch i'w chanu, a chadwyd cofnod o'r ymwelwyr. Gwelsom asesiadau risg yn dangos fod yr ymarferwyr yn gwybod beth oedd y risgiau a sut i'w rheoli. Roedd y rhain wedi'u diwygio a'u dyddio'n ddiweddar. Roedd yr ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda, er enghraifft wrth iddynt fynd adref, gan sicrhau eu bod yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel yn llwyddiannus, a bod yr ymarferwyr yn ymwybodol o'r peryglon a sut i'w rheoli.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i oedran y plant sy'n mynychu.

Roedd digon o le ar gael i'r plant ac roedd yr holl ardaloedd yn lân ac wedi'u haddurno'n dda. Roedd y neuadd wedi'i gosod gyda gemau bwrdd a theganau ar y llawr. Gallai'r plant archwilio'r amgylchedd, er enghraifft drwy edrych ar y silffoedd a oedd yn llawn o'u hoff gemau.  Gwelsom ofod addas lle gallai'r plant ymlacio neu edrych ar lyfrau os oeddent am wneud hynny. Roedd y plant yn gyfarwydd â'u hamgylchedd ac roeddent yn gallu defnyddio cyfleusterau fel y toiledau yn hawdd. Roedd yr ardal paratoi'r byrbrydau yn lân ac yn cynnwys cyfarpar digonol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gyfeillgar, diddorol ac amrywiol yn effeithiol.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn amrywiol ac yn briodol i oedran y plant.

Roedd adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da ar gael i'r plant yn cynnwys papur o feintiau a lliwiau amrywiol gydag amrywiaeth o greonau, pensiliau a phennau. Roedd y rhain ar gael i raddau digonol er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Roedd yr holl deganau a'r gemau'n lân ac mewn cyflwr da. Roedd y cyfarpar, y gemau a'r dodrefn yn

addas ar gyfer y plant sy'n mynychu. Prynwyd gemau newydd ac roedd y plant wedi dewis rhai ohonynt.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau ansawdd a phriodoldeb yr adnoddau a'r cyfarpar.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn flaengar ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth o safon. Mae hunanwerthuso yn effeithiol a gwneir gwelliannau gan ystyried pawb dan sylw. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cael digon o hyfforddiant, cymorth ac adnoddau yn barhaus. Mae partneriaethau â'r rhieni a'r ysgol yn effeithiol er budd y plant a'u teuluoedd.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithlon ac yn drefnus.

Mae gan yr arweinwyr, sef y person cofrestredig a phwyllgor cefnogol, ymdeimlad o ddiben a disgwyliadau er mwyn hybu gwelliant a chanlyniadau da i'r plant. Er enghraifft, gwelsom fod y person â chyfrifoldeb a'r gwirfoddolwyr yn hapus, yn gymwys ac yn cael cymorth da. Gwelsom ymarfer cyson drwy'r gwasanaeth ac roedd yr ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac roedd ganddynt berthynas dda â'r plant. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod dyletswyddau cyfreithiol yn cael eu bodloni, fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Roedd Datganiad o Ddiben clir, hawdd ei ddarllen a roddodd y wybodaeth ofynnol. Roedd yr holl gofnodion yn drefnus ac yn hawdd i'w rheoli, er enghraifft roedd y cofrestri yn cofnodi presenoldeb y plant a'r ymarferwyr yn glir.

Mae gan yr arweinwyr ymdeimlad clir o ddiben sy'n arwain at ganlyniadau da i'r plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso. Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso a gwelliant parhaus, sydd wedi'i ymgorffori bob dydd yn ymarferol, fel y gwelwyd yn y gwelliannau a wnaed, fel prynu gemau newydd. Roedd y gwelliannau a nodwyd yn yr adolygiad blynyddol wedi'u rhoi ar waith ac roedd cynlluniau ar waith megis trefnu digwyddiadau arbennig er mwyn annog mwy o blant i fynychu. Dywedodd y pennaeth fod y niferoedd yn cynyddu'n araf. Mae cynlluniau ar gyfer cynnal amrywiaeth o weithdai i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn adnabbod y gwasanaeth yn dda a gwnaed gwelliannau parhaus i wella ymarfer.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith i reoli ymarferwyr ac adnoddau.

Gwelsom fod gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am y plant a oedd yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn brydlon, ac roedd eu hagwedd yn dyner ac yn garedig â'r plant. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn ddigon cymwys ac wedi cael hyfforddiant ychwanegol, megis gweithdy drama diogelu estynedig. Cawsom wybodaeth

ysgrifenedig yr wythnos yn dilyn yr arolygiad bod dogfennau wedi'u casglu mewn ffeilau unigol i ddangos tystiolaeth bod y gwirfoddolwyr yn addas i ofalu am y plant. Roedd y gwirfoddolwyr yn gweithio yn yr ysgol hefyd. Mae'r pwyllgor yn helpu i godi arian ar gyfer adnoddau newydd.

Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol a llwyddiannus i reoli'r broses recriwtio, nodi anghenion hyfforddi a gweithio gyda'r ymarferwyr er mwyn gwella perfformiad.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am y gwasanaeth ac mae ganddynt bartneriaethau pwysig â nhw a'r staff ysgol.

Roedd yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn hawdd mynd atynt ac yn cyfathrebu'n agored â'r rhieni yn ôl yr angen. Gallai'r rhieni siarad â'r ymarferwyr bob dydd, a gwelsom y rhieni yn casglu eu plant ac roedd digon o amser i gyfnewid gwybodaeth. Roedd ganddynt gysylltiadau agos gyda'r ysgol ac roedd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i gynnig cyfleusterau da. Cafodd pob plentyn a'u teuluoedd fudd o'r gofal cyson wrth i'r plant barhau i gael gofal ar safle'r ysgol. Mae Clybiau Plant Cymru hefyd yn rhoi cyfle i arweinwyr wneud cais am grantiau, sy'n golygu y gallant gynnig gweithdai arbennig i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau partneriaethau â'r rhieni ac mae gan yr ysgol deilliannau cadarnhaol a chyson i'r plant a'u teuluoedd.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim heb eu datrys

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â’r gwasanaeth ar 13 Mawrth 2019, rhwng 15.15 a 17.40.

- Gwnaethom:
- Archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant a dau ymarferydd;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir;
- cyflwyno ein canfyddiadau i'r person cofrestredig.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Person Cofrestredig** | **Michelle Brooks-Jones** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Michelle Brooks-Jones** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 – 11 oed** |
| **Oriau agor** | **15.15 – 18.00 Dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **11 Chwefror 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **13 Mawrth 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Do**<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |